COFNODION CYFARFOD Y CYNGOR A GYNHALIWYD YN SIAMBR Y CYNGOR - SWYDDFEYDD DINESIG, STRYD YR ANGEL, PEN-Y-BONT AR OGWR CF31 4WB AR DYDD MERCHER, 19 MEDI 2018 AM 15:00

Presennol

Y Cynghorydd JR McCarthy – Cadeirydd

| | | | |
|---|---|---|---|
| S Aspey | SE Baldwin | TH Beedle | JPD Blundell |
| NA Burnett | MC Clarke | N Clarke | RJ Collins |
| HJ David | P Davies | PA Davies | SK Dendy |
| DK Edwards | J Gebbie | T Giffard | RM Granville |
| CA Green | DG Howells | B Jones | MJ Kearn |
| DRW Lewis | DG Owen | D Patel | RL Penhale-Thomas |
| AA Pucella | JC Radcliffe | KL Rowlands | B Sedgebeer |
| RMI Shaw | JC Spanswick | RME Stirman | G Thomas |
| T Thomas | E Venables | SR Vidal | MC Voisey |
| KJ Watts | CA Webster | DBF White | A Williams |
| AJ Williams | HM Williams | JE Williams | RE Young |

Ymddiheuriadau am Absenoldeb

A Hussain, RM James, JE Lewis, SG Smith, JH Tildesley MBE, LM Walters a/ac PJ White

Swyddogion:

| | |
|---|---|
| Susan Cooper | Cyfarwyddwr Corfforaethol - Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles |
| Mark Galvin | Uwch Swyddog Gwasanaethau Democrataidd - Pwyllgorau |
| Lindsay Harvey | Cyfarwyddwr Corfforaethol – Addysg a Chymorth i Deuluoedd |
| Gill Lewis | Pennaeth Cyllid a Swyddog 151 Dros Dro |
| Darren Mepham | Prif Weithredwr |
| Jonathan Parsons | Rheolwr Grŵp Datblygu |
| Michael Pitman | Prentys Busnes Gweinyddol Gwasanaethau Democrataidd |
| Mark Shephard | Cyfarwyddwr Corfforaethol - Cymunedau |
| Kelly Watson | Rheolwr Grŵp Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd |

212. DATGANIADAU O FUDDIANT

Rhoddodd Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol a Rheoleiddiol a'r Swyddog Monitro y cyngor canlynol i'r Aelodau ynghylch eitem ar yr agenda y byddai gan rai efallai fuddiant ynddo yn nes ymlaen yn y cyfarfod (sef eitem 12), fel a ganlyn:-

Byddai gan Aelodau sydd yn y gronfa bensiwn fuddiant personol yn yr eitem hon. Fodd bynnag, o dan y Cod Ymarfer, os oedd y buddiant hwnnw'n codi o'u haelodaeth o'r gronfa drwy eu cyflogau fel Cynghorwyr ni fyddai ganddynt fuddiant oedd yn rhagfarnu. Roedd yr eithriad hwn yn berthnasol iddynt hwy'n bersonol ac ni fyddai'n berthnasol i unrhyw fuddiant oedd ganddynt o ganlyniad i deulu oedd yn rhan o'r gronfa bensiwn. Cyfrifoldeb pob Aelod oedd ystyried ei amgylchiadau unigol ei hun.

Gwnaed y datganiadau canlynol o fuddiant o ran eitem 12 ar yr Agenda:-

Y Cynghorydd DBF White, buddiant oedd yn rhagfarnu.

Y Cynghorydd DG Howells, buddiant personol, yn ogystal â buddiant oedd yn rhagfarnu fel Aelod oedd yn cynrychioli'r WDA.

Y Cynghorydd JC Spanswick, buddiant oedd yn rhagfarnu am fod rhai aelodau o'r teulu yng Nghynllun Pensiwn Llywodraeth Leol.

Y Cynghorydd P Davies, buddiant oedd yn rhagfarnu.

Y Cynghorydd HJ David, buddiant oedd yn rhagfarnu am fod rhai aelodau agos o'r teulu yng Nghynllun Pensiwn Llywodraeth Leol. Mynegodd y Cynghorydd David hefyd fuddiant oedd yn rhagfarnu yn eitem 6 ar yr Agenda am fod aelod agos o'r teulu yn cael ei gyflogi gan Rockwool.

Y Cynghorydd HM Williams, buddiant personol, a buddiant oedd yn rhagfarnu yn eitem 6 ar yr Agenda am ei fod yn berchen ar ddarn o dir o fewn safle'r cais.

Y Cynghorydd CE Smith, buddiant personol yn ogystal â buddiant oedd yn rhagfarnu oherwydd bod aelod agos o'r teulu yn aelod oedd yn elwa o Gynllun Pensiwn Llywodraeth Leol.

Y Cynghorydd S Baldwin, buddiant personol a buddiant oedd yn rhagfarnu.

Y Cynghorydd MJ Kearn, buddiant oedd yn rhagfarnu am fod aelod agos o'r teulu yng Nghynllun Pensiwn Llywodraeth Leol.

Y Cynghorydd G Thomas, buddiant oedd yn rhagfarnu fel aelod o Gynllun Pensiwn Llywodraeth Leol.

Y Cynghorydd KJ Watts, buddiant oedd yn rhagfarnu.

Y Cynghorydd RM Shaw, buddiant personol.

Y Cynghorydd N Clarke, buddiant personol.

Y Cynghorydd MC Voisey, buddiant personol.

Y Cynghorydd N Burnett, buddiant oedd yn rhagfarnu am fod aelod agos o'r teulu yn aelod o Gynllun Pensiwn Llywodraeth Leol.

Y Cynghorydd M Jones, buddiant personol a buddiant oedd yn rhagfarnu.

Y Cynghorydd T Beedle, buddiant oedd yn rhagfarnu fel aelod o Gynllun Pensiwn Llywodraeth Leol.

Y Cynghorydd A Williams, buddiant personol fel aelod o Gynllun Pensiwn Llywodraeth Leol.

Y Cynghorydd D Patel, buddiant personol fel aelod o Gynllun Pensiwn Llywodraeth Leol.

Y Cynghorydd MC Clarke, buddiant personol.

Y Cynghorydd S Aspey, buddiant personol am ei fod yn aelod o Gynllun Pensiwn Llywodraeth Leol.

Y Cynghorydd T Thomas, buddiant personol am ei fod wedi talu i mewn o'r blaen i Gynllun Pensiwn Llywodraeth Leol.

Dywedodd yr aelodau hynny a wnaeth ddatgan buddiant oedd yn rhagfarnu yn y ddwy eitem ar yr Agenda y cyfeiriwyd atynt, y byddent yn mynd allan o'r cyfarfod tra roedd yr eitemau hyn yn cael eu hystyried.

213. CYMERADWYO'R COFNODION

PENDERFYNWYD Bod Cofnodion cyfarfod y Cyngor, dyddiedig 18 Gorffennaf 2018, yn cael eu cymeradwyo fel cofnod gwir a chywir.

214. DERBYN CYHOEDDIADAU GAN:

Y Maer

Croesawodd y Maer yr Aelodau yn ôl ar ôl gwyliau Awst a gobeithiai fod pawb wedi llwyddo i fynd i ffwrdd am ychydig ddyddiau yn barod ar gyfer tymor yr hydref/gaeaf.

Ers ei adroddiad diwethaf i'r Cyngor, roedd ei Gydymaith ac yntau wedi mynychu 34 o achlysuron a digwyddiadau swyddogol, oedd wedi bod yn amrywiol ac yn wahanol ac eto'n ddifyr iawn, ac roedd hi wedi bod yn anodd dewis ychydig i adrodd wrth yr Aelodau amdanynt.

Fe ymwelsant â Mrs Emily McNamara ar ei 100fed pen-blwydd yn ei chartref ym Maesteg. Mae hi'n mwynhau iechyd da, yn dal i fedru mynd i siopa bob wythnos i ASDA gyda'i wyres, ac yn llwyddo i ddringo'r grisiau bob nos. Dywedodd wrthym am ei gwaith yn y ffatri arfau ym Mhen-y-bont ar Ogwr yn ystod y rhyfel a sut y cyfarfu hi â'i gwr mewn dawns ym 1943. Roeddent wedi priodi 6 mis yn ddiweddarach, ac mae'r gweddill yn hanes gyda nifer o wyrion a gorwyrion. Ychwanegodd ei bod wedi bod yn hyfryd ei chyfarfod hi a'i theulu.

Fe aethant hefyd i wasanaeth coffa Trychineb Slip y Parc, achlysur dwys wrth gofio yr holl fywydau a gollwyd, yn enwedig dynion ifanc oedd yn 13 mlwydd oed, ac yn rhai achosion nifer o aelodau o'r un teulu wedi eu colli.

Roedd agoriad swyddogol Ysgol Betws gan y Prif Weinidog yn fore ardderchog pan gawsant eu tywys o gwmpas gan y disgyblion, oedd yn dweud wrthynt am eu hysgol newydd.

Roedd y Maer/Cydymaith hefyd yn bresennol yn noson wobrwyo chwaraeon Ysgol Gyfun Maesteg, ac yn Sinema'r Odeon, Pen-y-bont ar Ogwr, roeddent wedi bod i weld dangosiad cyntaf Dragon Hunters, ffilmiau byrion newyddiadurllyd ynghylch y problemau gyda dreigiau yn y cymoedd, wedi eu gwneud mewn cydweithrediad gan yr holl ysgolion cynradd yn ardal Maesteg, gyda chymorth staff a disgyblion Ysgol Gyfun Maesteg.

Fe wnaethant hefyd ymweld ag Ysgol Trelales i gyflwyno'r faner Blatinwm i'r ysgol ar ôl 10 mlynedd o dderbyn y faner werdd.

Roedd ymweliadau eraill yn cynnwys drama plant Blwyddyn 6 oedd yn gadael Ysgol Tondu; sioe geir Pen-y-bont ar Ogwr; gwasanaeth dinesig Maer Porthcawl, y cynghorydd Norah Clark; trwyddedu'r Parch Ian Hodges fel Deon Ardal gyda'r Esgob June; Sioe Frenhinol Cymru; ymweliad ag Uned Ganser symudol Tenovus yn y Pines; pen-blwydd priodas 65ain Mr & Mrs Panter; noson wobrwyo yn HMS Cambria y Barri. Roeddent hefyd wedi ymweld â'r Ymddiriedolaeth Gŵn ym Mhen-y-Fai a noson gyflwyno gwobrau i arwyr lleol radio FM y Bont. Cyflwynwyd siec i Elusennau'r Maer gan Aelodau a Rheolwyr Casle Bingo, a chafwyd diwrnod materion Tai yn nhŷ diogel Morfa Llamau.

Ychwanegodd mai achlysur trist oedd mynd i angladd Audrey Thomas, chwaer y Cynghorydd Jeff Tildesley, oedd yn Gydymaith iddo ef pan oedd yn Faer.

Roedd y Maer wedi derbyn siec ar gyfer radio Pen-y-bont ar Ogwr gan Sainsbury's, ac ar ôl hynny ymwelodd â'r orsaf radio yn yr ysbyty. Wedyn bu'n bresennol yng nghlwb cicio a bocsio newydd y Gym for Warriors yn YMCA Pen-y-bont ar Ogwr gyda'r Cynghorydd David White a'r Arweinydd.

Cyflwynwyd Beiblau Gideon i'r Maer/Cydymaith yn y Swyddfeydd Dinesig; ymwelodd â diwrnod agored St Pauls yn Heol –y-Cyw, garddwest cartref preswyl Glanffrwd ym Mhencoed, codi baner LGBGT yn y Swyddfeydd Dinesig; seremoni ddinasyddiaeth gyda 2 deulu dymunol, ordeinio a sefydlu y Parch Robert Hall QGM, gweinidog newydd Capel Bedyddwyr Hope, (Robbie i'w gyfeillion). Hefyd bu yng ngarddwest Cefn-yr-afon; cyflwyniad Bracla yn ei Blodau; cyngerdd gan gôr meibion Porthcawl gyda phedwarawd o gantorion talentog, sef y 4tunes; lansio cydweithfa grefftau Pen-y-bont ar Ogwr; cyflwyniad a dadorchuddio plac yn Harbwr Porthcawl gyda'r Cynghorydd Charles Smith i nodi dwy ganrif ers geni Robert Pearson Brereton a gynlluniodd ac a adeiladodd harbwr Porthcawl ynghyd â phrosiectau eraill yn yr ardal; Ras Dydd Gwyl Ddewi MPCT yng nghae Coopers ym Mharc Bute.

Gorffennodd drwy ddweud bod ei Gydymaith ac yntau yn edrych ymlaen at dymor hydref prysur, os oedd yr uchod yn unrhyw fath o arweiniad.

Dirprwy Arweinydd

Roedd y dirprwy Arweinydd yn siŵr y byddai ar Aelodau eisiau rhoi gwybod i'w hetholwyr ein bod yn paratoi i gynnal Ffair Swyddi flynyddol y Fwrdeistref.

Byddai'r digwyddiad poblogaidd am ddim hwn yn cael ei gynnal drannoeth rhwng 10 y bore ac 1 o'r gloch y prynhawn yng Nghanolfan Bywyd Pen-y-bont ar Ogwr

Roedd yn agored i bawb, a'r nod oedd cynorthwyo pobl leol i ddod o hyd i waith neu newid gyrfa tra'n derbyn cyngor a chymorth arbenigol.

Roedd y digwyddiad wedi cael ei drefnu mewn partneriaeth gyda Job Centre Plus, a byddai mwy na 40 o gyflogwyr a sefydliadau yn cymryd rhan.

Byddai amrywiaeth eang o swyddi gwag dros dro a pharhaol ar gael i wneud cais amdanynt ar y diwrnod, a byddai'r rhain yn cynnwys swyddi mewn adwerthu, lletygarwch, gofal, gweithgynhyrchu, bancio, diogelwch, darparwyr hyfforddiant, gwasanaethau cyhoeddus a recriwtio.

Mae'r ffair swyddi wedi datblygu enw cadarn fel lle i geiswyr swyddi gael mynediad at wybodaeth a chyngor, a chael yn ôl i mewn i waith neu gael cyfle i gynyddu eu sgiliau.

Roedd y digwyddiad eleni wedi denu nifer fawr o gyflogwyr posibl, ac roedd yn sicr y byddai o fudd mawr i drigolion lleol.

Aelod o'r Cabinet - Cymunedau

Dywedodd yr aelod o'r Cabinet bod Aelodau yn ddiamau wedi arfer cael etholwyr yn tynnu eu sylw at dyllau yn y ffordd, ac felly roedd yn wirioneddol dda ganddo weld bod ein gwaith uwchraddio priffyrdd £1.5 miliwn wedi cychwyn.

Mae hyn yn cynnwys ailwynebu rhai o ffyrdd mwyaf prysur y Fwrdeistref sirol fel rhan o raglen dreigl o fuddsoddi.

Roedd yn gwybod bod Aelodau ac aelodau pryderus o'r cyhoedd wedi dwyn llawer o'r ffyrdd i sylw'r Cyngor, ac roedd staff y Cyngor wedi nodi'r rheiny oedd angen eu cynnwys yn y rhaglen.

Roedd y ffyrdd wedi eu dewis ar gyfer gwaith yn dilyn arolygon technegol oedd wedi defnyddio radar, offer atal sgidio, arolygon cyflwr ac asesiadau a gynhaliwyd gan arolygwyr y priffyrdd.

Unwaith y bydd y gwaith wedi ei gwblhau, dylai sicrhau na fydd ar y ffordd angen unrhyw waith trwsio mawr pellach am rhwng 20 a 30 o flynyddoedd.

Mae hyn yn gwneud llawer mwy o synnwyr na thrwsio tyllau wrth iddynt ddigwydd, ac mae'n rhatach yn y pen-draw.

Er y byddai peth anhwylustod yn anochel, roedd pob ymdrech yn cael ei gwneud i geisio cadw hyn i lawr i'r eithaf, ac roedd y gwaith yn mynd i wneud gwahaniaeth sylweddol wrth inni symud yn nes i'r gaeaf.

Yn olaf, atgoffodd yr Aelodau am ddigwyddiad canmlwyddiant yr RAF fyddai'n cael ei gynnal am 4.30., (h.y. yn dilyn y Cyngor) y prynhawn hwnnw.

Aelod o'r Cabinet - Cenedlaethau'r Dyfodol a Llesiant

Dywedodd Aelod y Cabinet - Cenedlaethau'r Dyfodol a Llesiant, wrth i dymor yr hydref nesáu, fod ymgyrch 'Nyth Gwag' blynyddol y Cyngor wedi cychwyn recriwtio gofalwyr maeth newydd.

Anelir yr ymgyrch at gartrefi lle mae'r plant wedi tyfu a symud yn eu blaen.  Mae'n cynnig ateb i rieni a gwarcheidwaid a all fod yn ceisio addasu i'r newid sydyn yn eu bywydau.

Mae hefyd yn annog rhieni a gwarcheidwaid i ddefnyddio'u sgiliau i helpu i sicrhau y gall plant aros yn yr ardal leol, ac mor agos i'w hysgol a'u ffrindiau ag sydd modd**.**

Roeddent hefyd yn edrych am ofalwyr maeth, fel rhan o gynllun 'Pontio'r Bwlch' sy'n darparu gofal tymor byr arbenigol i blant sydd ag amrywiaeth o anghenion ychwanegol.

Darperir hyfforddiant a chyngor yn gyson i'r holl rieni maeth ynghyd â phecyn ariannol cystadleuol.

Gorffennodd drwy ddweud y gallai rhywun, fyddai'n dymuno cael gwybod mwy, ymweld â gwefan Gofal Maeth Pen-y-bont ar Ogwr neu ffonio'r tîm maeth ar 642674.

Aelod o'r Cabinet - Addysg ac Adfywio

Dywedodd Aelod y Cabinet dros Addysg ac Adfywio y byddai cydweithwyr yn gwybod bod rhaglen barhaus o foderneiddio ysgolion y Cyngor hwn wedi bod yn darparu cyfleusterau addysgol o'r math diweddaraf ers peth amser bellach.

Ynghyd â'r Maer, y Maer Ieuenctid, y Dirprwy Faer Ieuenctid, yr Arweinydd a chyd-aelodau o'r Cabinet ynghyd â'r Cynghorydd lleol Martin Jones, roedd wedi bod wrth ei fodd i fod yn bresennol yn agoriad Ysgol Gynradd gwbl newydd y Betws. Roedd y Prif Weinidog Carwyn Jones yno hefyd ar gyfer y digwyddiad, ac roeddent wedi gweld drostynt eu hunain newid mor enfawr yr oedd yr ysgol yn ei wneud ym mywydau dros 200 o blant lleol rhwng pedair ac unarddeg oed.

Fel y gwyddai'r Aelodau, cafodd Ysgol Gynradd Betws ei difrodi yn rhannol yn 2012 ar ôl i dân dorri allan yn y bloc iau. Ynghyd â'r Ysgol Gynradd Gymraeg sy'n cael ei hadeiladu ar yr un safle, Ysgol Gynradd Gymraeg Calon Y Cymoedd, bydd y ddwy ysgol yn cynrychioli buddsoddiad o £10.8 miliwn yn rhan ddeheuol Cwm Garw.

Gyda Choleg Cymunedol y Dderwen wedi ei leoli ychydig filltiroedd i ffwrdd, teimlai fod hyn yn dangos yn eglur yr ymdrechion sy'n cael eu gwneud i greu etifeddiaeth barhaol aruthrol i addysg yn y rhan hon o'r Fwrdeistref Sirol.

Diolchodd i bawb a'u llongyfarch am helpu i gyflawni'r adnodd cymunedol gwych hwn.

Roedd wedi bod yn falch hefyd i fod mewn digwyddiad diweddar a drefnwyd gan Sefydliad y Peirianwyr Sifil, neu ICE yn fyr, i nodi cyfraniad Robert Pearson Brereton, peiriannydd o'r 19$^{eg}$ ganrif a chydweithiwr i Brunel, oedd yn gyfrifol am nifer o orchestion peirianyddol yn lleol.

Roedd y rhain yn cynnwys adeiladu doc newydd Porthcawl a agorodd yn 1867, a chwblhau y rheilffordd o ardal Maesteg i Ben-y-bont ar Ogwr a Phorthcawl.

Yn y tair blynedd ar ddeg ddiwethaf, roedd ICE Cymru wedi gosod neu gefnogi 27 o blaciau a phaneli gwybodaeth ledled Cymru, yn nodi safleoedd peirianyddol hanesyddol pwysig ac yn coffáu peirianwyr enwog megis Trevithick, Brunel a Telford.

Mae ICE wedi rhoi plac coffa inni y byddwn yn ei osod yn barhaol unwaith y bydd peth o'r gwaith ar yr harbwr presennol wedi ei gwblhau.

Hwn fydd y seithfed plac ar hugain y mae ICE wedi eu rhoi i nodi safleoedd pwysig a choffáu peirianwyr enwog, ac roedd yn siŵr yr hoffai Aelodau weld hwn drostynt eu hunain.

<u>Prif Weithredwr</u>

Dymunai'r Prif Weithredwr roi diweddariad byr i'r Aelodau ynghylch peth gwaith ymgysylltu â staff oedd wrthi'n cael ei wneud ar y pryd.

Dros yr haf, roedd yr Arweinydd ac yntau wedi cynnal nifer o sesiynau gyda'r staff yn Siambr y Cyngor, ac roedd oddeutu 150 o weithwyr wedi mynychu'r rhain i gyd, ac roeddent wedi rhoi blas trawstoriadol iddynt o'r mathau o bryderon a phroblemau oedd yn effeithio ar y staff.

Roedd y sesiynau hefyd wedi eu galluogi i rannu rhai o'r problemau mawr oedd yn wynebu'r Cyngor, ac ateb unrhyw gwestiynau oedd yn cael eu codi. Roeddent hefyd wedi annog y staff i edrych ar y sesiynau fel fforwm agored lle gallai unrhyw un godi mater, ac roeddent wedi ymateb yn gadarnhaol i hyn.

Roedd y staff wedi mynegi cryn ddiddordeb yn y newidiadau oedd i ddod yn y bwrdd iechyd ac roedd ail-drefnu llywodraeth leol hefyd yn bwnc llosg, fel yr oedd y gyllideb wrth gwrs a llymder.

Mae diweddariadau'r staff yn ffurfio rhan o raglen dreigl o fesurau sydd wedi eu bwriadu i'n cynorthwyo ni i ddeall ein staff yn well a'n galluogi i fynd i'r afael â'u hanghenion lles.

Roedd hyn yn rhywbeth yr oedd yr Arweinydd ac yntau yn debygol o'i wneud o bryd i'w gilydd yn rheolaidd yn y dyfodol.

At hynny, fe wnaethant lansio arolwg staff oedd wedi ei fwriadu i alluogi staff i roi adborth dienw, gonest iddynt, a rhoi dealltwriaeth gywir o'u barn a'u teimladau. Daw hwn i ben ar 10 Hydref, ac ar ôl hynny byddant yn ei ddadansoddi er mwyn nodi pa gamau a allai fod yn angenrheidiol ar gyfer cefnogi lles ac ysbryd y staff.

Gorffennodd y Prif Weithredwr drwy ddweud y byddai'n rhoi diweddariad mwy manwl i'r Aelodau unwaith y byddai canlyniadau'r broses hon yn hysbys.

Swyddog Monitro

Cyhoeddodd y Swyddog Monitro un neu ddau o newidiadau ynghylch aelodaeth y Pwyllgor.

Yn gyntaf, dywedodd y byddai'r Cynghorydd Radcliffe yn cymryd lle'r Cynghorydd T Thomas ar y Pwyllgor Rheoli Datblygiad.

Yn ail, cytunwyd rhwng y ddau Aelod canlynol, y byddai'r Cynghorydd J Williams yn dod oddi ar SO ac SC 1 ac yn dod yn aelod o SO a SC 3 yn lle hynny. Er mwyn hwyluso hyn, byddai'r Cynghorydd JH Tildesley yn ildio ei aelodaeth o SO ac SC 3 ac yn dod yn aelod o SO a SC 1.

Ychwanegodd y Swyddog Monitro na fyddai'r newidiadau uchod yn effeithio ar gydbwysedd gwleidyddol presennol y Pwyllgorau.

215. DERBYN ADRODDIAD YR ARWEINYDD

Dywedodd yr Arweinydd fod y Cyngor ar fin cychwyn yr ymgynghoriad ynghylch y gyllideb eleni, ac y byddent unwaith eto yn annog trigolion lleol i gymryd rhan a chynorthwyo i ailsiapio dyfodol Pen-y-bont ar Ogwr. Fel rhan o hyn, byddent yn cynnal ymgyrch gyhoeddusrwydd a marchnata lawn fyddai'n cynnwys digwyddiadau cymunedol, datganiadau i'r wasg, hysbysebu a mwy.

Bydd y cyfryngau cymdeithasol yn chwarae rhan amlwg yn y broses, a gobeithiai ef y byddai'r holl Aelodau etholedig yn cefnogi'r ymgyrch ac yn annog cymaint o bobl ag sydd modd i gymryd rhan. Byddwn yn gofyn i'r trigolion pa wasanaethau y maent yn meddwl ddylai gael blaenoriaeth wrth i'r Awdurdod geisio ymdopi â gostyngiad o £35 miliwn mewn cyllid erbyn 2023. Mae'n hawdd iawn gweld dim ond y toriad ac nid y rhesymeg y tu ôl iddo, ac felly mae arnom angen i Aelodau ein cynorthwyo i gyfleu rhai problemau anodd iawn.

Fel yr oedd yr Aelodau'n gwybod, roedd y Cyngor eisoes wedi arbed £30 miliwn drwy wneud pethau fel lleihau nifer ein staff o fwy na 400, gweithio gyda phartneriaid megis Halo, neu gwtogi ar wasanaethau megis toiledau cyhoeddus, glanhau strydoedd, clybiau ieuenctid ac addysg i oedolion. Gwnaed hyn tra hefyd yn gwneud buddsoddiad hanfodol mewn ysgolion newydd, tai i bobl hŷn, amddiffynfeydd morol hanfodol a mwy. Ond fel y gwyddai'r Aelodau hefyd, roedd pwynt critigol wedi ei gyrraedd bellach, ac roedd rhai penderfyniadau caled eto i gael eu gwneud.

Roedd yr ychydig flynyddoedd nesaf yn mynd i fod y rhai mwyaf heriol eto, gan ein bod yn cael ein gorfodi i ystyried meysydd pwysig fel ysgolion ac addysg feithrin, gwasanaethau cymdeithasol i blant, trigolion hŷn a phobl anabl, a mwy. Dyma pam roedd angen i'r Cyngor ymgysylltu'n llawn â phobl leol, ac roedd yn apelio ar y Cynghorwyr i gyd, gan gynnwys Cynghorau Tref a Chymuned, i gynorthwyo i gyflawni hyn.

Byddai aelodau yn derbyn gwahoddiad cyn bo hir i ddigwyddiad ymgynghori arbennig. Mae hwn yn cael ei drefnu fel y gellir ei gynnal ochr yn ochr â'r Cyngor llawn ar Ddydd Mercher, 24 Hydref, a bydd yn rhoi cyfle i'r Aelodau roi eu barn a dod i wybod mwy am yr hyn yr ydym yn ceisio ei gyflawni. At hynny, byddai manylion llawn y digwyddiadau cymunedol oedd yn cael eu trefnu yn cael eu hanfon at y Cynghorwyr, ynghyd â gwybodaeth yn dweud wrth drigolion am y ffyrdd gwahanol y gallant gymryd rhan.

Cynhelir ymgynghoriad y gyllideb rhwng 24 Medi a 18 Tachwedd. Byddai digon o gyfle i gymryd rhan, ac felly gofynnodd i'r rhai oedd yn bresennol gynorthwyo i ledaenu'r neges ynghylch y cyfle tra phwysig hwn.

Yn olaf, llongyfarchodd yr Arweinydd Mr Lindsay Harvey oedd wedi ei benodi'n ddiweddar i swydd Cyfarwyddwr Corfforaethol - Addysg a Chymorth i Deuluoedd, ar ôl cyflawni'r swydd hon ar sail dros dro. Gwnaed y penodiad gan y Pwyllgor Penodiadau, corff sy'n cynnwys Aelodau trawsbleidiol.

Roedd yr Arweinydd yn sylweddoli mai dyma'r swydd fyddai'n freuddwyd i Mr Harvey, a gwyddai y byddai'n llwyddiannus iawn yn cyflawni ei waith yn effeithiol fel yr oedd wedi gwneud dros dro am nifer o fisoedd eisoes.

216. <u>CAIS CYNLLUNIO SY'N GWYRO P/18/520/FUL</u>

Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol - Cymunedau adroddiad, oedd yn cadarnhau bod y Pwyllgor Rheoli Datblygu, ar 30 Awst 2018, wedi ystyried cais cynllunio P/18/520/FUL fel cais sy'n gwyro oddi wrth y Cynllun Datblygu Lleol. Penderfynodd y Pwyllgor Rheoli Datblygu i beidio gwrthod caniatâd cynllunio, fel bod y cais yn cael ei gyfeirio at y Cyngor a gofynnid i'r Cyngor gymeradwyo'r cais gyda rhai amodau.

Roedd copi o adroddiad y Pwyllgor Rheoli Datblygu ar y mater hwn wedi ei atodi yn Atodiad 1 yr adroddiad.

Dywedodd Rheolwr y Grŵp Datblygu fod yr Aelodau yn gyfarwydd â'i weld yn bresennol yn y Pwyllgor Rheoli Datblygu i roi diweddariadau ar y Cynllun Datblygu Lleol (CDLl) a materion cynllunio datblygu eraill, pan oedd wedi pwysleisio cydymffurfio a sicrhau eu bod yn cadw at y CDLl. Ambell waith, fodd bynnag, roedd angen i'r Cyngor ystyried adroddiadau yn ymwneud â datblygiad nad oedd yn cydymffurfio â'r CDLl, lle roedd y Pwyllgor uchod wedi penderfynu cymeradwyo, gan na allai'r Pwyllgor wneud penderfyniad terfynol ar rai ceisiadau (oedd yn gwyro oddi wrth y Cynllun Datblygu Lleol).

Roedd y cais uchod yn ymwneud ag estyniad i safle presennol ffatri Rockwool yng Nghwm Tarw, Pen-y-bont ar Ogwr, cyflogwr mawr yn y Fwrdeistref Sirol. Byddai'r estyniad yn golygu datblygu tir oedd ar hyn o bryd y tu allan i'r tir a ddyrannwyd ar gyfer y ffatri ac allan i'r wlad. Fel y cyfryw nid oedd y cynnig yn cydymffurfio â'r CDLl.

Byddai'r rhan estynedig yn darparu lle storio allanol mwy o faint a mwy hygyrch ar gyfer cynnyrch gorffenedig Rockwool, yn union i'r de o'u ffatri bresennol, gyda mynediad drwy fynedfa newydd oddi ar Heol Gwern Tarw.
Mae buddsoddiad gwerth miliynau o bunnau wedi cael ei sicrhau gan Bencadlys Byd-eang Rockwool yn Nenmarc i ymgymryd â'r estyniad hwn er mwyn gwella effeithlonrwydd y safle o ran danfoniadau, dadlwytho a llwytho ac i ateb y galw cynyddol am y cynnyrch.

Mae rhan y datblygiad newydd yn ymwneud â llain o goncrit caled (yn cynnwys mynedfa asffalt a heol mynediad/man parcio/rhan lwytho i Gerbydau Nwyddau Trymion) o oddeutu 20 acer o dir amaethyddol cymharol isel ei werth i'r de o'r cyfleuster presennol.

Bydd y datblygiad hefyd yn cynnwys belt cyfleu amgaeedig wedi ei insiwleiddio i mewn i safle'r brif ffatri, cyfleuster lles y gyrwyr, garej tryc codi a chwt diogelwch. Bydd y cyfleuster storio newydd yn galluogi'r cwmni i ryddhau peth lle wrth fynedfa bresennol y safle, gyferbyn â Ffordd Fferm y Wern; gwneud y defnydd gorau o'r ffatri i gynhyrchu, storio a danfon eu cynnyrch a chyflogi 65 yn ychwanegol o weithwyr llawn amser parhaol (ar ben y 404 o weithwyr presennol) ar y safle. Cafodd y cynhyrchiant yn y gwaith ei arafu yn dilyn y dirywiad economaidd ac nid yw'r cynnig hwn yn cynnwys cynyddu cyfleusterau cynhyrchu, ond yn hytrach gwella effeithlonrwydd y gweithrediad presennol.

Bu'r cynnig yn destun trafodaeth helaeth cyn i'r cais gael ei wneud ynghyd ag ymgynghoriad cymunedol. Gyda'r cais hefyd cafwyd adroddiadau manwl yn cynnwys asesiad traffig, asesiadau ecolegol (yn cynnwys ystlumod, llygod daear, madfall □r, ymlusgiaid ac adar yn nythu), astudiaeth oleuni, Datganiad Cynllun a Mynediad, Asesiad Effaith Weledol, Adroddiad Asesu Sŵn, Cam 1-2 Archwiliad Diogelwch Ffyrdd, adroddiad archwilio'r ddaear, asesiad risg llifogydd a chynllun rheoli adeiladu.

Mae'r cynnig wedi ei asesu'n drwyadl gan gynnwys y mewnbwn gan ymgyngoreion statudol ac arbenigwyr mewnol y Cyngor ei hun. Nid ystyrid bod y datblygiad yn codi unrhyw broblemau mawr o ran mwynder, dyluniad na diogelwch.

Mae nifer o bryderon wedi cael eu codi gan drigolion, y Cyngor Tref a'r aelod lleol. Tynnir sylw at y pryderon hyn ac eir i'r afael â hwy yn yr adroddiad cynllunio a chawsant eu trafod yn helaeth yn ystod cyfarfod y Pwyllgor Rheoli Datblygu.

Cadarnhaodd Rheolwr y Grŵp Datblygu, ar ôl ystyried yr uchod a phwyso a mesur yr holl ystyriaethau o bwys perthnasol i'r cynllun hwn, yn nhermau cynllunio yr ystyrir y datblygiad yn dderbyniol yn y lleoliad penodol hwn oherwydd y cyfiawnhad dros ehangu'r safle cyflogaeth sefydledig hwn o fewn y Fwrdeistref Sirol a chan ystyried unrhyw effeithiau posibl ar y trigolion o amgylch o ran sŵn, ansawdd aer a golau; unrhyw effaith ar gymeriad ac ymddangosiad y safle a'r wlad o amgylch; ei effaith bosibl ar fioamrywiaeth yn y safle ac o'i amgylch; a'i effaith bosibl ar y rhwydwaith priffyrdd a draeniad yn ac o gwmpas y safle.

Felly, roedd dadl resymegol dros ymestyn safle'r ffatri i'r tir oedd yn y wlad.

Mae cyfraith gynllunio yn datgan bod rhaid penderfynu ar geisiadau cynllunio yn unol â'r CDLl, oni fydd amgylchiadau o bwys yn dweud fel arall. Yn yr achos hwn teimlai ef fod ehangu'r cyfleuster diwydiannol sefydledig hwn a'r buddion economaidd cysylltiedig o ran rhagor o waith, yn bwysicach na'r polisïau amddiffyn y tir yn gyffredinol ac y byddai'n rhoi rhyw raddau o gadernid i'r gwaith.

Gorffennodd Rheolwr y Grŵp Datblygu drwy ddweud y gallai'r Awdurdod Cynllunio Lleol roi caniatâd ar gyfer datblygiad nad oedd yn cyd-fynd â darpariaethau'r CDLl oedd mewn grym yn yr ardal, pe byddai'r Cyngor yn ei gadarnhau. Nid oedd y Pwyllgor Rheoli Datblygu yn teimlo y dylent wrthod caniatâd cynllunio.

Cododd yr Aelod dros yr ardal dan sylw rai pryderon ynghylch y seilwaith priffyrdd presennol yn ardal Heol-Y-Cyw/Gwern Tarw a'r effaith niweidiol y gallai estyniad y datblygiad ei chael ar hyn, oherwydd cynnydd yn nifer y cerbydau trymion i ac o safle'r cais. Er ei fod yn cefnogi'r cyfleoedd cyflogaeth ychwanegol a ddeuai gyda'r datblygiad, teimlai na ddylai'r cais gael ei gymeradwyo, heb i Amod gael ei hychwanegu i'r caniatâd a fyddai'n arwain at wneud gwelliannau yn y rhwydwaith priffyrdd yn y lleoliad uchod. Felly cynigiodd welliant i'r argymhelliad i'r perwyl hwn, a gafodd ei eilio.

Gofynnodd Aelod arall oedd o blaid y cynnig, a ellid cymryd pleidlais gofnodedig ar y gwelliant.

Cymerwyd pleidlais electronig felly p'un a ddylid cael pleidlais gofnodedig, ac roedd canlyniad hyn fel a ganlyn

| Dros | Yn erbyn | Atal Pleidleisiau |
|---|---|---|
| 36 | 0 | 0 |

Dywedodd Rheolwr y Grŵp Datblygu nad oedd y cynnig a wnaed felly gan yr Aelod yn ddiwygiad i'r argymhelliad, gan nad oedd yr hyn a gynigid yn ffurfio rhan o argymhelliad yr adroddiad. Esboniodd hefyd na fyddai cynnydd yn nifer y cerbydau i/o safle Rockwool o ganlyniad i'r cais. Ychwanegodd hefyd fod cyflwr y brifforddd yn bod cyn i'r cais gael ei gyflwyno ac felly nad oedd yn gyfrifoldeb ar y datblygwr i fynd i'r afael o reidrwydd ag unrhyw broblemau oedd yn bod eisoes gyda'r rhwydwaith priffyrdd.

Gyda chyngor y Swyddog Monitro, cytunwyd felly y dylai'r bleidlais fod yn 'ie' i'r rheiny oedd o blaid yr argymhelliad, a 'na' i'r rheiny oedd yn dymuno iddo gael ei wrthod.

Canlyniad y bleidlais a gofnodwyd oedd:-

| **Cais Cynllunio sy'n Gwyro Departure Planning Application Resolution (Penderfynwyd)** | |
|---|---|
| Cynghorydd Sean Aspey | Yn Erbyn |
| Cynghorydd Stuart Baldwin | O Blaid |
| Cynghorydd Tom Beedle | O Blaid |
| Cynghorydd Jon-Paul Blundell | O Blaid |
| Cynghorydd Nicole Burnett | O Blaid |
| Cyngorydd Mike Clarke | Ymatal |
| Cynghorydd Norah Clarke | Yn Erbyn |
| Cynghorydd Richard Collins | O Blaid |
| Cynghorydd Huw David | Dim Pleidlais |
| Cynghorydd Paul Davies | O Blaid |
| Cynghorydd Pam Davies | O Blaid |
| Cynghorydd Sorrel Dendy | Yn Erbyn |
| Cynghorydd Keith Edwards | O Blaid |
| Cynghorydd Jane Gebbie | O Blaid |
| Cynghorydd Tom Giffard | O Blaid |
| Cynghorydd Richard Granville | O Blaid |
| Cynghorydd Cheryl Green | Yn Erbyn |
| Cynghorydd Gareth Howells | O Blaid |
| Cynghorydd Brian Jones | Yn Erbyn |
| Cynghorydd Martyn Jones | O Blaid |
| Cynghorydd Mike Kearn | O Blaid |
| Cynghorydd David Lewis | Yn Erbyn |
| Cynghorydd John McCarthy | Dim Pleidlais |
| Cynghorydd David Owen | Yn Erbyn |
| Cynghorydd Dhanisha Patel | O Blaid |
| Cynghorydd Ross Penhale-Thomas | O Blaid |
| Cynghorydd Aniel Pucella | Dim Pleidlais |
| Cynghorydd James Radcliffe | Yn Erbyn |
| Cynghorydd Kay Rowlands | O Blaid |
| Cynghorydd Bridie Sedgebeer | O Blaid |

| | |
|---|---|
| Cynghorydd Rod Shaw | O Blaid |
| Cynghorydd Charles Smith | O Blaid |
| Cynghorydd John Spanswick | O Blaid |
| Cynghorydd Roz Stirman | O Blaid |
| Cynghorydd Gary Thomas | O Blaid |
| Cynghorydd Tim Thomas | Yn Erbyn |
| Cynghorydd Elaine Venables | Yn Erbyn |
| Cynghorydd Sadie Vidal | O Blaid |
| Cynghorydd Matthew Voisey | O Blaid |
| Cynghorydd Ken Watts | Yn Erbyn |
| Cynghorydd Carolyn Webster | O Blaid |
| Cynghorydd David White | O Blaid |
| Cynghorydd Alex Williams | Yn Erbyn |
| Cynghorydd Amanda Williams | Yn Erbyn |
| Cynghorydd Hywel Williams | Dim Pleidlais |
| Cynghorydd Julia Williams | Yn Erbyn |
| Cynghorydd Richard Young | O Blaid |
| **Cariwyd** | |

| Dros (cymeradwyo'r adroddiad) | Yn erbyn | Atal Pleidleisiau |
|---|---|---|
| 28 | 14 | 1 |

PENDERFYNWYD: Cymeradwyodd y Cyngor yr adroddiad (a'r datblygiad), a bod Cyfarwyddwr Corfforaethol - Cymunedau yn cael yr awdurdod dirprwyedig i gyhoeddi hysbysiad o benderfyniad ynghylch y cynnig, gyda'r Amodau oedd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad.

217. ADRODDIAD ALLDRO RHEOLI'R TRYSORLYS BLYNYDDOL 2017-18

Fe wnaeth Pennaeth Cyllid Dros dro a Swyddog S151 gyflwyno adroddiad, a phwrpas hwn oedd cydymffurfio â gofyniad Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth (CIPFA) 'Rheoli'r Trysorlys yn y Gwasanaethau Cyhoeddus: Cod Ymarfer:' i adrodd am drosolwg ar weithgareddau'r trysorlys dros y flwyddyn ariannol flaenorol ac adrodd am union Reolaeth y Trysorlys a Dangosyddion Darbodus am 2017-18.

Mae'r adroddiad yn seiliedig ar Strategaeth Rheoli'r Trysorlys (TMS) am 2017-18 a gymeradwywyd gan y Cyngor ar 1 Mawrth 2017.

Cyhoeddodd CIPFA argraffiadau newydd o 'Reoli'r Trysorlys yn y Gwasanaethau Cyhoeddus: Cod Ymarfer' a'r 'Cod Darbodus ar gyfer Cyllid Cyfalaf mewn Awdurdodau Lleol' ddiwedd Rhagfyr 2017. Fodd bynnag, cynhyrchwyd y TMS 2017-18 a'r adroddiad hwn gan ddefnyddio Codau 2011. Hefyd ym mis Mawrth 2018, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ddiwygiad i 'Reoliadau Awdurdodau Lleol (Arian Cyfalaf a Chyfrifyddiaeth) (Cymru)', sy'n galluogi'r Cyngor i fuddsoddi mewn rhai offerynnau o 2017-18, oedd gynt yn cael eu trin fel gwariant cyfalaf, heb y gost refeniw bosibl o Ddarpariaeth Isafswm Refeniw (MRP) a heb i'r elw o werthiant gael ei ystyried fel derbyn cyfalaf.

Ychwanegodd mai'r cynghorwyr rheoli trysorlys i'r Cyngor yw Arlingclose. Mae eu contract yn rhedeg o 1 Medi 2016 am bedair blynedd yn dilyn proses dendro a chaiff y contract ei adnewyddu'n flynyddol a chaiff y naill barti neu'r llall derfynu'r cytundeb hwn drwy rhoi rhybudd o dri mis ymlaen llaw.

Cafodd swyddogaeth rheoli'r trysorlys ei adolygu gan Archwilwyr Allanol y Cyngor, sef Swyddfa Archwilio Cymru, yn ystod archwiliad blynyddol 2017-18 ac ni wnaed dim newidiadau i Reolaeth y Trysorlys. Yn ychwanegol at waith yr Archwilwyr Allanol, cynhaliodd yr Archwilwyr Mewnol archwiliad o swyddogaeth rheolaeth y trysorlys yn ystod 2017-18 a nododd yr archwilwyr, 'yn seiliedig ar asesiad o gryfderau a gwendid y meysydd a archwiliwyd, a thrwy gynnal profion, daethpwyd i'r casgliad yr ystyrir effeithiolrwydd yr amgylchedd rheoli mewnol yn gadarn ac felly gellir rhoi sicrwydd sylweddol ynghylch rheoli risgiau'.

Ar ddechrau'r flwyddyn ariannol roedd y Gyfradd Banc yn 0.25% a chynyddodd Pwyllgor Polisi Ariannol Banc Lloegr (MPC) hyn o 0.25% i 0.50% ym mis Tachwedd 2017. Roedd yn arwyddocaol am mai dyma'r cynnydd cyntaf yn y gyfradd sylfaenol mewn deng mlynedd, er bod yr MPC, mewn gwirionedd wedi dadwneud y toriad a wnaeth ym mis Awst 2016 yn dilyn canlyniad refferendwm yr Undeb Ewropeaidd. Parhaodd y Gyfradd Banc ar 0.50% am weddill 2017-18.

Dangoswyd sefyllfa dyled a buddsoddiad allanol y Cyngor o 1 Ebrill 2017 i 31 Mawrth 2018 yn adran 4.1 a thabl 1 yr adroddiad. Rhoddwyd mwy o fanylion yn Adran 4.4 a 4.5. Y pwyntiau allweddol i'w nodi oedd:

- Cyfanswm y ddyled allanol gros oedd yn dal yn ddyledus ar 31 Mawrth 2018 oedd £117.89 miliwn.
- Mae'r £96.87 miliwn o fenthyciad tymor hir ar 31 Mawrth 2018 yn cynnwys:

  a) £77.62 miliwn yn ymwneud â Bwrdd Benthyca Gwaith Cyhoeddus ar gyfraddau sefydlog (llog cyfartalog o 4.70%)
  b) £19.25 miliwn gyda dyddiad dod i ben o 2054, yn ymwneud â benthyciadau Dewis Echwynnwr, Dewis Benthyciwr (LOBO), a all gael eu hailamseru cyn y dyddiad ad-dalu. Siaradodd y Cyngor ag echwynnwr LOBO ynghylch dewisiadau ad-dalu posibl yn 2017-18.
  c) Fodd bynnag, teimlid bod y premiwm yn ormodol i'w weithredu ond y byddai'r Cyngor yn cymryd y dewis o ad-dalu'r benthyciadau hyn am ddim cost, os caiff y cyfle i wneud hynny yn y dyfodol. Y gyfradd llog gyfartalog gyfredol ar y LOBO's hyn yw 4.65% o gymharu â chyfradd llog gyfartalog PWLB o 4.70%.

- Ni chymerwyd benthyciad tymor hir newydd yn ystod 2017-18 ac nid ailamserwyd dyled gan nad oedd arbedion o bwys i'w gwneud. Fodd bynnag, i ddibenion llif arian cymerwyd 2 fenthyciad tymor byr yn rhoi cyfanswm o £4 miliwn a chafodd y rhain eu had-dalu'n llawn o fewn llai na mis o'r dyddiad y cymerwyd hwy allan gyda dim balans yn ddyledus ar 31 Mawrth 2018.

- Mae'r ffigur o £21.02 miliwn o rwymedigaethau hirdymor eraill ar 31 Mawrth 2018 yn cynnwys £17.64 miliwn ar gyfer trefniant Menter Cyllid Cyhoeddus (PFI) y Cyngor ar gyfer darparu Ysgol Uwchradd ym Maesteg gyda thymor o 16 mlynedd ar ôl. Wedi ei gynnwys yn y ffigur hwn mae'r rhwymedigaeth fyrdymor o £0.64 miliwn sydd wedi ei chynnwys fel rhwymedigaethau ariannol cyfredol ym mantolen y Cyngor yn y SOA. Mae £2.40 miliwn hefyd wedi ei gynnwys yn ymwneud â benthyciad gan Gronfa Cadw Cyfalaf Ganolog Llywodraeth Cymru ar gyfer gwaith adfywio yng Nghwm Llynfi.

1. Darparodd llifau arian ffafriol gronfeydd dros ben, fel bod y balans ar fuddsoddiadau ar 31 Mawrth 2018 yn £30.40 miliwn (cyfradd llog gyfartalog o

0.62%) yn gostwng o £33.75 miliwn ar ddechrau'r flwyddyn ariannol ond cynyddodd y gyfradd gyfartalog o 0.55%. Y gyfradd gyfartalog ar gyfer 2017-18 oedd 0.49% (yr un gyfradd â 2016-17). Mae dadansoddiad o'r symudiad hwn a'r llog a dderbyniwyd wedi ei ddangos yn nhabl 2 yn adran 4.5.5 drwy deip gwrthbarti a rhydd tabl 3 fanylion y £30.40 miliwn yn ôl cyfradd credyd, proffil ad-dalu a theip gwrthbarti.

2. Mae'r Cyngor yn diffinio ansawdd credyd uchel fel sefydliadau a gwarantau sydd â chyfradd credyd o A- neu uwch. Mae'r siart pei yn adran 4.5.8 yn crynhoi'r buddsoddiadau gwerth £30.40 miliwn yn ôl cyfraddau credyd ac yn dangos hyn fel y ganran sydd ar ôl. Nid oes gan y rhan fwyaf o Awdurdodau Lleol gyfraddau credyd a chafodd gweddill ein buddsoddiadau gyfradd credyd o A neu uwch.
3. Gwneir penderfyniadau buddsoddi drwy gyfeirio at y gyfradd credyd hirdymor isaf a gyhoeddwyd gan Fitch, Moody’s neu Standard & Poor er mwyn sicrhau bod hyn yn aros o fewn terfyn cyfradd gredyd isaf gytunedig y Cyngor yn y Strategaeth Fuddsoddi yn y TMS. Dengys Atodiad B y tabl cywerthedd ar gyfer y cyfraddau credyd cyhoeddedig hyn ac mae'n esbonio'r graddau buddsoddi gwahanol.

    - Dangosir Dangosyddion Perfformiad i ddibenion cymharu ar gyfer y cyfraddau hyn yn adran 4.6. Roedd cyfraddau elw cyfartalog y Cyngor yn 2017-18 ar fuddsoddiadau ar ddiwedd pob chwarter yn fwy ffafriol o'u cymharu â chyfartaledd Awdurdodau Lleol Cymru oedd yn gleientiaid i Arlingclose fel y dangosir yn 4.6.4 e.e. ar 31-03-18, roedd BCBC yn 0.62% o gymharu â 0.47%.

Mae'r Cyngor yn amrywio i ddosbarthiadau o asedau mwy diogel a/neu log uwch a defnyddir unrhyw offerynnau newydd drwy ymgynghoriad llawn ag Arlingclose. Er mwyn medru defnyddio'r rhan fwyaf o'r mathau gwahanol hyn o offerynnau mae gofyn i'r Cyngor ddefnyddio cyfrif(on) un a enwebwyd gyda thrydydd parti ar gyfer cadw buddsoddiadau o'r fath yn ddiogel (cyfrif gwarchod) gan na allwn ddelio'n uniongyrchol. Ar 5 Medi 2017, cymeradwyodd y Cabinet agor cyfrif gwarchod gyda King & Shaxson. Fe wnaeth hefyd ddirprwyo awdurdod i Swyddog Adran 151, mewn ymgynghoriad â'r Swyddog Monitro, i agor cyfrifon gwarchod ychwanegol i gefnogi cyflawni cyfrifoldebau rheoli'r trysorlys pe bai angen. Defnyddiwyd y cyfrif gwarchod ym mis Hydref 2017 i fuddsoddi mewn bil Trysorlys Ei Mawrhydi o £1 miliwn a ddaeth i ben ym mis Ionawr 2018.

Agorodd y Cyngor Gronfa Marchnad Arian yn Awst 2017 gyda'r Eglwysi, yr Elusennau, a Chronfa Gadw Sector Cyhoeddus Awdurdodau Lleol (CCLA) sy'n crynhoi arian cadw'r sector cyhoeddus yn gwbl gydnaws ag egwyddorion a gwerthoedd y sector cyhoeddus. Mae wedi ei sefydlu yn y DU, yn cael ei rheoli gan yr Awdurdod Gwasanaethau Ariannol gyda bwrdd ymgynghorol yn cynrychioli cyfranwyr y sector cyhoeddus, sy'n sicrhau trefniadau llywodraethu cadarn ar y Gronfa. Mae hwn yn offeryn ariannol cymeradwy yn TMS 2017-18 ac mae'n rhoi mynediad at gyllid yn syth. Nid oedd balans yn weddill ar 31 Mawrth 2018.

Yn 2017-18, gweithredodd y Cyngor o fewn cyfyngiadau'r trysorlys a Rheolaeth y Trysorlys a Dangosyddion Darbodus fel yr esboniwyd yn y TMS 2017-18 y cytunwyd arni ac roedd yn cydymffurfio hefyd â'i Arferion Rheoli'r Trysorlys. Dangosir manylion Rheolaeth y Trysorlys a Dangosyddion Darbodus yn 4.9 ac Atodiad A i'r adroddiad.

Diolchodd y Dirprwy Arweinydd i Swyddogion Ariannol y Cyngor am reoli adnoddau'r Cyngor yn ddarbodus a chael elw da iawn o'r buddsoddiadau.

<u>PENDERFYNWYD:</u> bod y Cyngor:

(1) yn cymeradwyo gweithgareddau rheoli'r trysorlys am 2017-18.
(2) Yn cymeradwyo Rheolaeth wirioneddol y Trysorlys a Dangosyddion Darbodus 2017-18

218. ADOLYGIAD O BOLISI DARPARIAETH ISAFSWM REFENIW (MRP) 2018-19.

Cyflwynodd y Pennaeth Cyllid Dros Dro a Swyddog S151 adroddiad, a diben hwn oedd cyflwyno i'r Cyngor ddulliau gwahanol o gyfrifo tâl refeniw blynyddol darbodus i ad-dalu costau ariannu cyfalaf, a adwaenir fel y Ddarpariaeth Isafswm Refeniw, yn unol â Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Cyllid Cyfalaf a Chyfrifyddu) (Cymru).

Dywedodd nad yw'r ddeddfwriaeth yn diffinio'r hyn a olygir wrth 'ddarpariaeth ddarbodus'. Mae Canllawiau Llywodraeth Cymru'n amlinellu amrywiol ddulliau derbyniol gyda'r nod o sicrhau bod dyled yn cael ei thalu'n ôl dros gyfnod sy'n rhesymol gymesur â'r cyfnod y mae'r gwariant cyfalaf yn rhoi budd, neu'r cyfnod sy'n ddealledig ym mhenderfyniad y Grant Cynnal Refeniw.

Mae'n ofynnol i Awdurdodau gynhyrchu Datganiad Blynyddol ar eu Polisi ar gyfer codi'r Ddarpariaeth Isafswm Refeniw, a adwaenir fel MRP, a rhaid i hyn gael ei gymeradwyo gan y Cyngor llawn. Oherwydd hynny, mae angen cymeradwyaeth y Cyngor llawn hefyd i unrhyw newidiadau yn y Polisi.

Roedd Atodiad A yr adroddiad yn cynnwys Polisi MRP Blynyddol 2018-19 wedi ei gymeradwyo gan y Cyngor. Y tâl MRP presennol 2018-19 am fenthyciad a gynhelir, yn seiliedig ar falans gostyngol o 4%, yw £4.884 miliwn yn erbyn cyllideb o £4.981 miliwn. Mae hyn o fewn Ariannu Cyfalaf yn y Gyllideb Refeniw Di-Gyfarwyddiaeth.

Mae dull y Balans Gostyngol yn dyrannu taliadau uwch i'r blynyddoedd cynharaf a thaliadau llai yn y blynyddoedd diwethaf. Mae'r tâl o 4% yn awgrymu y bydd y ddyled wedi ei thalu mewn pum mlynedd ar hugain. Fodd bynnag, mae'r balans gostyngol yn golygu na fydd y ddyled wedi ei thalu'n llwyr mewn gwirionedd tan yn llawer diweddarach na hyn.

Er enghraifft, ymhen 45 mlynedd, sy'n cyfateb i hyd oes cyfartalog asedau'r Cyngor, byddai'r fethodoleg bresennol yn dal i adael dyled o £18.673 miliwn ar ôl gyda thâl blynyddol o £778,000 o'r cyfrif refeniw. Nid yw hyn i'w weld yn cefnogi Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ac nid yw'n benthyg ei hun i ddarpariaeth ddarbodus. Mae Pen-y-bont ar Ogwr yn un o nifer fechan iawn o Awdurdodau sy'n dal i ddefnyddio'r dull hwn.

Roedd hefyd yn werth nodi bod y Cyngor, yn ogystal â'r ddarpariaeth refeniw ar gyfer benthyciad a gynhelir, yn gwneud darpariaeth refeniw wirfoddol ychwanegol. Ar 31 Mawrth 2018, ffigur cronnus hyn yw £14.743 miliwn, wedi ei adeiladu ers 2004-05 ac yn 2018-19 y gost i refeniw hyd yma eleni yw £1.380 miliwn sydd i gyd yn mynd i ostwng y gofyniad ariannu'r cyfalaf sy'n weddill.

Roedd Atodiad B yr adroddiad yn rhoi rhai dewisiadau ar gyfer newid yr MRP i ddull Balans Gostyngol o 3% ac wedyn ar sail llinell syth dros 40 mlynedd, 45 mlynedd a 50 mlynedd. Mae'n dangos mai methodoleg fwy darbodus fyddai sail llinell syth, y gellid ei gysylltu ag oes asedau fel ar fethodoleg balans gostyngol, mae'r gost refeniw yn dal i barhau hyd yn oed ar flwyddyn 200. Byddai sail llinell syth yn arwain at:-

- Yr holl ddefnyddwyr yn elwa'n gyfartal o ddefnydd yr asedau dros eu hoes;
- Darparu sicrwydd y gost refeniw flynyddol;

- Sicrhau bod y ddyled yn cael ei thalu'n llawn dros oes yr ased.

Felly, nid ymgais i nodi arbedion tymor byr yw newid y fethodoleg ond ffordd o amddiffyn defnyddwyr presennol yr asedau a'u defnyddwyr yn y dyfodol drwy wneud y gost refeniw yn fwy darbodus.

Mae oes asedau ar gofrestr asedau'r Cyngor wedi cael eu harchwilio ac oes gyfartalog ased yw 45 mlynedd. Byddai'n ymddangos yn ddoeth i symud i sail llinell syth a thalu am y ddyled dros 45 mlynedd. Canlyniad hyn fyddai cost newydd am y flwyddyn o £2.713 miliwn, £2.171 miliwn yn llai na'r gost wreiddiol o £4.884 miliwn.

Gofynnai'r adroddiad am gymeradwyaeth i'r diffyg gwariant ar y gyllideb ariannu cyfalaf fyddai'n ganlyniad hyn gael ei ddefnyddio i gynyddu Cronfa wrth Gefn y Rhaglen Gyfalaf sydd wedi ei chlustnodi i gefnogi cynlluniau cyfalaf yn y dyfodol.

Roedd y Datganiad Darpariaeth Isafswm Refeniw Blynyddol ar gyfer 2018-19 wedi ei osod allan yn Atodiad C yr adroddiad.

Ymatebodd y Pennaeth Cyllid Dros Dro a'r Swyddog S151 i nifer o gwestiynau gan Aelodau, ac yn dilyn hynny,

PENDERFYNWYD: Bod y Cyngor yn cymeradwyo

(1) Adolygu Polisi MRP 2018-19 ar gyfer cyfrifo MRP ar wariant cyfalaf oedd yn cael ei gyllido o fenthyciad a gynhelir o ddull balans gostyngol o 4% i ddull llinell syth dros 45 mlynedd, ac mae Datganiad Darpariaeth Isafswm Refeniw wedi ei gymeradwyo (gweler Atodiad C yr adroddiad).

(2) Bod y gwarged o ganlyniad yn y gyllideb ariannu cyfalaf am 2018-19 yn cael ei ddefnyddio i gynyddu Cronfa wrth Gefn y Rhaglen Gyfalaf sydd wedi ei chlustnodi, a bod ystyriaeth bellach yn cael ei rhoi i drin y gyllideb sylfaenol ar gyfer MRP 2019-20 o fewn Strategaeth Ariannol y Tymor.

219. ADRODDIADAU GWYBODAETH I'W NODI

Cyflwynodd Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Rheoleiddiol adroddiad, oedd yn hysbysu'r Cyngor am yr Adroddiadau Gwybodaeth i'w nodi, oedd wedi cael eu cyhoeddi ers y cyfarfod diwethaf a drefnwyd.

Amlinellwyd y rhain ym mharagraff 4.1 yr adroddiad.

PENDERFYNWYD: Bod y Cyngor yn cydnabod cyhoeddi'r dogfennau a restrwyd yn yr adroddiad.

220. CWESTIWN I AELOD Y CABINET - ADDYSG AC ADFYWIO GAN Y CYNGHORYDD TIM THOMAS

"A wnaiff Aelod y Cabinet wneud datganiad ar y modd y mae'r Cyngor hwn ar hyn o bryd yn gweithredu strategaeth cynhwysant yn yr ysgolion?"

Ymateb gan Aelod y Cabinet dros Addysg ac Adfywio

Gweithredu diwygio Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) yw ffocws strategaeth Cynhwysiant ac ADY ym Mwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr (BCBC).

Cafodd Bil Anghenion Dysgu Ychwanegol a Thribiwnlys Addysg (Cymru) ei basio gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ar 12 Rhagfyr 2017 ac, ar ôl derbyn Cydsyniad Brenhinol, daeth yn Ddeddf ar 24 Ionawr 2018. Mae'r Ddeddf yn darparu ar gyfer fframwaith statudol newydd i gefnogi plant a phobl ifanc ag ADY o'r crud nes eu bod yn 25 mlwydd oed. Mae'r Ddeddf hon i ddisodli deddfwriaeth flaenorol ynghylch Anghenion Addysg Arbennig ac asesu plant a phobl ifanc ag anawsterau dysgu a/neu anableddau mewn addysg a hyfforddiant ôl-16.

I gefnogi gweithredu'r system newydd, gan gynnwys y Ddeddf, mae Llywodraeth Cymru wedi ariannu pump Arweinydd Trawsnewid Anghenion Dysgu Ychwanegol. Mae pedwar o'r arweinyddion trawsnewid yn gweithredu'n rhanbarthol, ar ôl troed y consortia addysg, ac mae un arweinydd yn gweithio fel Arweinydd Trawsnewid Addysg Bellach ar lefel genedlaethol.

Dylai'r system newydd ddechrau cael ei gweithredu ym mis Medi 2020 a disgwylir iddi gael ei chwblhau erbyn diwedd 2023. Mae'r llinell amser fel a ganlyn:-

- Ionawr 2018 - Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a Thribiwnlys (Cymru) yn derbyn Cydsyniad Brenhinol
- Mawrth 2018 - arweinyddion Trawsnewid ADY yn eu swyddi
- Tymor yr hydref 2018 - ymgynghori ar y Cod a'r Rheoliadau ADY drafft
- Rhagfyr 2019 - cyhoeddi'r Cod ADY terfynol
- Ionawr 2020 – cynnal hyfforddiant sut i weithredu'r Cod ADY newydd
- Medi 2020 - cynnal hyfforddiant sut i weithredu'r Cod ADY newydd
- Haf 2023 - systemau AAA ac anawsterau a/neu anableddau dysgu (AAD) yn dod i ben.

Mae'r Cynllun Gweithredu ADY Rhanbarthol (2018-2019) wedi cael ei gytuno gan Gyfarwyddwyr Addysg o Gonsortiwm Canolbarth y De (CCD). Mae'r cynllun yn disgwyl i gael ei lofnodi'n derfynol gan Lywodraeth Cymru a ddisgwylir ym Medi 2018. Mae yna wyth o flaenoriaethau wedi eu cynnwys yn y cynllun sydd fel a ganlyn:

- Blaenoriaeth 1- creu cynllun gweithredu rhanbarthol amlasiantaethol ac amlddisgyblaethol, fydd yn tanategu'r newid llwyddiannus i'r ffordd newydd o weithio.

- Blaenoriaeth 2 - cyflwyno rhaglen i godi ymwybyddiaeth fydd yn sicrhau bod y gweithwyr proffesiynol i gyd, llywodraethwyr ysgol, rhieni, gofalwyr, plant a phobl ifanc a'r trydydd sector yn derbyn gwybodaeth amserol am y newidiadau a'r cyfnodau amser sy'n gysylltiedig â hwy.

- Blaenoriaeth 3 - Gweithredu cynllun datblygu gweithlu cynhwysfawr sy'n cydymffurfio â Deddf ALNET ac yn ategu'r diwygiadau addysgol cenedlaethol ehangach**.**

- Blaenoriaeth 4 - datblygu cefnogaeth a darpariaeth ar gyfer dysgwyr sydd dros oed addysg orfodol drwy nodi cynigion lleol a rhanbarthol posibl.

- Blaenoriaeth 5 - sicrhau bod y disgwyliadau statudol newydd ar gyfer y blynyddoedd cynnar wedi eu deall ac yn cael eu darparu a bod y cymorth addas yn cael ei roi i gynyddu capasiti mewn lleoliadau blynyddoedd cynnar.

- Blaenoriaeth 6 - gwella ymgysylltu strategol gydag iechyd i gefnogi sefydlu rôl statudol y Swyddog Arweiniol Clinigol Addysg Dynodedig a datblygu disgwyliadau cyffredin ac arferion gwaith cefnogol.

- Blaenoriaeth 7 - adolygu a gwella darpariaeth gyfrwng Cymraeg a chymorth arbenigol i gefnogi cynnydd yn y capasiti rhanbarthol.

- Blaenoriaeth 8 - cefnogi hawliau'r plentyn a'r person ifanc ag ADY drwy ddatblygu arferion cyfeillgar i'r dysgwr sy'n esbonio prosesau'n glir a pha gefnogaeth y gallant ddisgwyl ei derbyn yn ogystal â hyrwyddo eu hawliau i apelio.

Yn ychwanegol at y Ddeddf, mae yna hefyd raglen trawsnewid ADY ehangach i gefnogi diwygio ADY. Ym mis Chwefror 2017, cyhoeddodd y Gweinidog dros Addysg Gydol Oes a'r Gymraeg ddatganiad gweinidogol ysgrifenedig yn cyhoeddi buddsoddiad o £20 miliwn mewn ADY i gefnogi'r holl bartneriaid i weithredu a chyflwyno'r system newydd yn llwyddiannus. Darparwyd £1.1 miliwn o'r buddsoddiad hwnnw drwy Gronfa Arloesi ADY, oedd yn grant cyn deddfwriaeth i gefnogi prosiectau cydweithredol rhwng amrywiaeth o asiantaethau oedd yn ymwneud â chefnogi dysgwyr ag ADY. Nod y gronfa oedd canfod a datblygu gwaith arloesol oedd yn gwella systemau, trefniadau a pherthynas yn barod ar gyfer lledaenu'r newidiadau deddfwriaethol oedd i ddod.

Cafodd yr hyn a ddysgwyd oddi wrth y prosiectau a ariannwyd drwy'r cynllun grant ei rannu ledled Cymru ar 19 Mehefin 2018. Darparodd hyn gyfle allweddol i ddatblygu ffyrdd o weithio'n gyson gyda'r diwygiadau a dylanwadu ar y dull o drawsnewid a gweithredu. Mae'r prosiectau fel a ganlyn:

- Prosiect 1 - cynllunio trawsnewid rhwng lleoliadau addysg, allan o addysg ac i ofal cymdeithasol ac i fywyd fel oedolyn. Capasiti darpariaeth ôl-16 leol gyda AAD.

- Prosiect 2 - capasiti Cydlynwyr ADY i roi cymorth i staff yr ystafell ddosbarth, gan gynnwys datblygu sgiliau.

- Prosiect 3 - capasiti ysgolion arbennig i weithredu fel cymorth arbenigol i ysgolion prif lif, a chapasiti gwasanaethau arbenigol seiliedig mewn awdurdodau lleol i gefnogi dysgwyr yn y blynyddoedd cynnar, mewn ysgolion a gynhelir ac mewn sefydliadau addysg bellach.

- Prosiect 4 - arferion a threfniadau ar gyfer datrys anghydfod ac osgoi dadleuon.

Mae diwygio ADY yn eitem ar agenda cyfarfod Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Pwnc 1 ar 18 Hydref 2018. Bydd Cyfarwyddwr Corfforaethol, Addysg a Chymorth i Deuluoedd yn trefnu i adroddiad gael ei gyflwyno mewn cyfarfod o'r Cyngor yn y dyfodol ar y cynnydd mewn gweithredu Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a Thribiwnlys Addysg (Cymru) maes o law.

<u>Cwestiwn ychwanegol gan y Cynghorydd T Thomas</u>

'Gyda golwg yn arbennig ar y Strategaeth Cynhwysiant mewn Ysgolion, pa ddulliau ymgynghori penodol a ddefnyddiwyd i sicrhau bod y disgyblion wrth ganol y penderfyniadau sy'n cael eu gwneud?'

<u>Ymateb y Cyfarwyddwr Corfforaethol - Addysg a Chymorth i Deuluoedd</u>

Mae llais y disgybl wrth ganol prosesau penderfynu'r Cyngor, ac felly, mae hyn yn benthyg ei hun i amrywiaeth o ddulliau ymgynghori, yn enwedig o ran Deddf Cydraddoldeb 2010.

Cwestiwn ychwanegol pellach gan y Cynghorydd T Thomas

Drwy ba ddulliau?

Ymateb gan Aelod y Cabinet dros Addysg ac Adfywio

Bydd y Cyfarwyddwr Corfforaethol - Addysg a Chymorth i Deuluoedd yn ymateb i'r Cynghorydd Thomas a'r holl Aelodau eraill ymhellach ynghylch yr uchod, y tu allan i'r cyfarfod.

221. RHYBUDD O GYNNIG A RODDWYD GAN Y CYNGHORYDD CAROLYN WEBSTER

Gofynnodd a gâi hi, gyda chaniatâd y Maer, dynnu ei Rhybudd o Gynnig yn ôl, fel yr amlinellwyd yn eitem 11 yr Agenda, yn yr adroddiad gan ei bod hi wedi cael ar ddeall fod Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru wedi cynnig bod y Cyngor hwn yn edrych i fabwysiadu'r diffiniad hwn, a'i fod i gael ei osod ar agenda Pwyllgor Cydraddoldeb y Cabinet ym mis Tachwedd eleni.

Yn dibynnu ar y canlyniad, ychwanegodd y byddai hi efallai yn dewis dod â'r cynnig hwn yn ôl gerbron y Cyngor yn y dyfodol.

Ddoe, roedd Iddewon ar draws y byd yn dathlu Yom Kippur. Manteisiodd hi felly ar y cyfle i ddymuno “G’mar Chatima Tova" i'n trigolion Iddewig ym Mwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr.”

222. RHYBUDD O GYNNIG A WNAED GAN Y CYNGHORYDD TIM THOMAS

PENDERFYNWYD: Cytunwyd yn gyntaf gan y Cynghorydd T Thomas ac wedyn gan yr holl Aelodau, i'r eitem hon gael ei gohirio tan gyfarfod nesaf y Cyngor.

223. EITEMAU BRYS

Dim

Daeth y cyfarfod i ben am 16:31